# Comisiwn
# Cynulliad Cenedlaethol Cymru

# CYNIGION Y GYLLIDEB 2008/9

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales





## COMISIWN CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

## Y GYLLIDEB AR GYFER Y FLWYDDYN SY'N DOD I BEN AR 31 MAWRTH 2009

***Crynodeb***

1. Gofynnir i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ystyried y gyllideb hon a baratowyd yn unol â Rheol Sefydlog 27. Bwriedir i'r ddogfen hefyd gynorthwyo â'r gwaith o lunio'r Cynnig Blynyddol am y Gyllideb sy'n ofynnol dan Adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r gyllideb yn ymdrin â'r adnoddau a'r arian parod sydd eu hangen ar Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Comisiwn y Cynulliad) ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 13 Mawrth 2009.

2. Bydd y Cynnig Cyllidebol yn awdurdodi'r adnoddau net i'w defnyddio ar gyfer gwasanaethau a dibenion Comisiwn y Cynulliad, yr incwm (neu'r adnoddau cronnus) mwyaf y gellir ei gadw i'w ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau a'r dibenion hynny yn lle cael eu talu i Gronfa Gyfunol Cymru, a swm yr arian parod y bydd ei angen o Gronfa Gyfunol Cymru er mwyn i'r Comisiwn fedru talu'r symiau net y rhagwelir a fydd yn dod yn ddyledus. Mae Cyllideb 2008/9 y Comisiwn, sy'n ymdrin â'r gofynion hyn, wedi'i gosod allan isod:

**Tabl 1: Cyllideb Ddrafft 2008/9 Comisiwn y Cynulliad**

| | **£000** |
|---|---|
| Adnoddau nad ydynt yn adnoddau cronnus i'w defnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cymru i dalu costau refeniw a chyfalaf yn ymwneud â'r gwaith o weinyddu neu redeg Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad"); hyrwyddo'r Cynulliad gan gynnwys taliadau i'r Comisiwn Etholiadol ac eraill; taliadau'n ymwneud â'r Comisiynydd Safonau; unrhyw daliadau eraill yn ymwneud â swyddogaethau'r Cynulliad neu swyddogaeth Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. | **46,181**<br>Ynghyd â rhwymedigaethau o ran TAW adenilladwy |
| Adnoddau cronnus i'w cadw'n unol ag adran 120(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a'u defnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru :<br>• Drwy werthu asedau sefydlog ac unrhyw fath arall o incwm cyfalaf i'w ddefnyddio i brynu neu gaffael asedau sefydlog;<br>• Incwm rhent; rhoddion; incwm o werthiant masnachol a gwasanaethau eraill ar gyfer y cyhoedd neu eraill i'w ddefnyddio i dalu costau gweinyddol y Cynulliad. | **160**<br>ynghyd â TAW adenilladwy |
| Y swm a geir o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu'r symiau net y rhagwelir a fydd yn dod yn ddyledus yn ystod y flwyddyn yng nghyswllt y gwasanaethau a'r dibenion uchod llai'r derbyniadau y disgwylir eu cadw. | **40,757** |

3. Mae'r gyllideb adnoddau wedi'i dadansoddi yn ôl incwm a gwariant goddrychol yn Atodiad 2 ac yn ôl gwasanaeth neu swyddogaeth wrthrychol yn atodiad 3. Mae Atodiad 4 yn cysoni'r adnoddau net â'r arian parod i ddod o Gronfa Gyfunol Cymru. Mae Atodiad 5 yn alinio gwariant newydd ar gyfer 2008/0 ag Amcanion Strategol Comisiwn y Cynulliad ar gyfer Trydydd Tymor y Cynulliad.

***Dadansoddi'r newidiadau yn y gyllideb***

4. £33.582m oedd y gyllideb adnoddau net a gymeradwywyd ar gyfer y Comisiwn yn 2007/8, ac mae cais cyllidebol atodol am £3.04m wedi'i gynnwys yng Nghynnig Cyllidebol Atodol y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus, sydd i'w drafod ar 26 Tachwedd 2007. Mae'r adnawdd ychwanegol hwn yn adlewyrchu'r costau a gododd ers cymeradwyo cyllideb 2007/08 ym mis Hydref 2006. Mae hyn yn cynnwys datblygiadau fel Staff Cymorth ychwanegol i Aelodau'r Cynulliad, gwella cyfleusterau addysgol i blant sy'n ymweld â'r Cynulliad, ariannu costau sy'n gysylltiedig ag ymadawiad Aelodau'r Cynulliad yn dilyn Etholiadau 2007, a dyrannu arian dros dro ar gyfer yr adolygiad o gyflogau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad. Yn ogystal â hyn, mewn cydnabyddiaeth o'r drefn gyfansoddiadol newydd, amcangyfrifir y caiff £5.139m ei drosglwyddo o gyfrifon gwariant Llywodraeth Cynulliad Cymru i Gomisiwn y Cynulliad i adlewyrchu taliadau cyfalaf a darpariaethau o dan Safon Adroddiad Ariannol 17 ar gyfer Crofna Bensiynau'r Aelodau. Nid cost newydd yw hon; ond trosglwyddiad cyfrifyddol o gostau sy'n bod eisoes. Mae angen addasiadau pellach i adlewyrchu'r symudiadau o arian refeniw i gyfalaf; a chaiff eitemau eithriadol ac unigryw gwerth cyfanswm o £1.39m, na chânt eu dwyn ymlaen i 2008/9, eu diddymu.

5. Mae Tabl 2, a gaiff ei ategu gan Atodiad 1, yn dangos cyllideb sylfaenol 2007/8, wedi'i haddasu, sef £40.371m.

**Tabl 2: Cyllideb sylfaenol 2007/8 wedi'i haddasu**

| | Refeniw £000 | Cyfalaf £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|
| **Cyllideb net 2007/8 a gymeradwywyd ar gyfer Comisiwn y Cynulliad:** | **33,512** | **70** | **33,582** |
| *Ynghyd ag* ymrwymiadau newydd a gododd yn ystod 2007/8, yn amodol ar gynnig cyllidebol atodol yn ystod y flwyddyn: | 2,640 | 400 | 3,040 |
| *Ynghyd â* chostau cylchol sy'n trosglwyddo o Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn amodol ar gynnig cyllidebol atodol yn ystod y flwyddyn: | 5,139 | - | 5,139 |
| *Trosglwyddo* cronfeydd refeniw i brosiectau cyfalaf yn ystod 2007/8: | -630 | 630 | - |
| ***Cyllideb sylfaenol ddiwygiedig 2007/8 :*** | **40,661** | **1,100** | **41,761** |
| *Llai* eitemau eithriadol ac unigryw yng nghyllideb 2007/8: | -990 | -400 | -1,390 |
| ***Cyllideb sylfaenol 2007/8 wedi'i haddasu:*** | **39,671** | **700** | **40,371** |

6. Mae'r symudiadau o linell sylfaen 2007/8 ar ôl ei haddasu, i'r cais adnoddau net ar gyfer 2008/9 , sef £46.181m, wedi'u crynhoi yn Nhabl 3:

**Tabl 3: Symudiadau o gyllideb 2007/8 (wedi'i haddasu) i gais 2008/9**

| | **Refeniw £000** | **Cyfalaf £000** | **Cyfanswm £000** |
|---|---|---|---|
| **Llinell sylfaen 2007/8 wedi'i haddasu:** | **39,671** | **700** | **40,371** |
| *Trosglwyddo* cyllid cyfalaf i refeniw: | 650 | -650 | - |
| *Ynghyd â* chwyddiant cyflogau a phrisiau: | 1,400 | - | 1,400 |
| ***Cyllideb gymharol 2008/9:*** | **41,721** | **50** | **41,771** |
| *Ynghyd â* chynigion i hybu blaenoriaethau strategol Comisiwn y Cynulliad: | 2,910 | 1,500 | 4,410 |
| **Cais adnoddau net 2008/9:** | **44,631** | **1,550** | **46,181** |

7. Mae chwyddiant prisiau, sef 2.5% (£700,000), ar gyflogau a lwfansau Aelodau a chostau rhedeg y Cynulliad yn gyffredinol wedi'u cynnwys yn y gyllideb gymharol. Mae cyflogau staff y Comisiwn wedi'i gysylltu â setliad tair blynedd, gyda chyflogau ar gyfer 2008/9 yn codi 3.4% (£300,000) ar gyfartaledd, a chynyddrannau'n codi 4% (£400,000) ar gyfartaledd.

8. Er mwyn sicrhau bod y Cynulliad yn gorff seneddol hygyrch ac effeithiol sy'n ennyn hyder pobl Cymru, mae'r Comisiwn wedi cytuno ar ei amcanion strategol ar gyfer Trydydd Tymor y Cynulliad:

- **Annog rhagor o bobl i gymryd rhan yn y broses ddatganoli**
  Yn ystod y pedair blynedd nesaf, rhaid i'r Cynulliad ddangos bod y Cynulliad yn gweithio dros bawb yng Nghymru gan annog rhagor o bobl i gymryd rhan fwy ymarferol yn y broses ddemocrataidd. Byddwn yn pwysleisio sut y mae'r Cynulliad wedi effeithio er gwell ar fywydau pobl Cymru. Caiff datganoli ei ehangu'n raddol drwy Ddeddf 2006, ac mae'n bosibl y bydd refferendwm ynghylch cael mwy o bwerau i ddeddfu, a byddwn yn barod i ymgymryd â'r heriau hyn gyda brwdfrydedd.

- **Dangos undod, arweiniad ac ymateb beiddgar i newidiadau cyfansoddiadol**
  Bydd y Cynulliad yn dangos hyder a gallu wrth ddefnyddio'i bwerau newydd. Rydym yn unedig yn ein bwriad i sicrhau gwaith craffu a deddfu o'r radd flaenaf, gan gynorthwyo'r Aelodau ym mhob agwedd ar eu gwaith fel cynrychiolwyr etholedig.

- **Dangos parch, cywirdeb a llywodraethu da ym mhob agwedd ar ein gwaith**
  Rhaid i ni ofalu bod modd i bobl graffu'n fanwl ar bob agwedd ar ein gwaith o'r tu allan, rhaid i'n gwaith fod yn dryloyw a dylai adlewyrchu natur amrywiol Cymru a'i hieithoedd a'r modd yr ydym yn delio â'i phobl ac yn eu cynnwys yn ein gwaith.

- **Gweithio'n gynaliadwy**
  Byddwn yn dangos arweiniad yn ffordd y byddwn yn rheoli ein gwaith a'n hystâd, a'n nod yw sicrhau ein bod yn gwneud hynny yn y ffordd fwyaf cynaliadwy bosibl.

- **Gofalu bod gan y Cynulliad y gwasanaeth gorau, a gaiff ei ddarparu yn y ffordd fwyaf effeithiol**
  Byddwn yn codi safon y gwasanaethau rydym yn eu darparu i Aelodau a phobl Cymru, gan ddangos ein bod yn defnyddio'u hadnoddau'n ddoeth ac yn effeithiol ac yn rhoi gwerth am arian. Gwasanaethu, yng nghyswllt Aelodau a phawb sy'n ymwneud â'r Cynulliad, yw'r ethos sydd wrth wraidd popeth a wnawn.

9. Mae'r cynigion gwario sydd wedi'u cynnwys yn y gyllideb i hybu'r amcanion hyn wedi'u gosod allan yn Atodiad 5, ac maent yn cynnwys gwella'r gwasanaethau sydd ar gael i Aelodau, gofalu y gall y Cynulliad weithredu'n effeithiol a wynebu heriau Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r Comisiwn yn awyddus i ddarparu Crèche i ymwelwyr a staff; gwella'r defnydd a wneir o adeilad hanesyddol y Pierhead; ac annog mwy o bobl i gymryd rhan yn y broses ddatganoli, ond mae'n rhy fuan yn y broses ddatblygu ar hyn o bryd i fedru amcangyfrif faint o adnoddau y bydd eu hangen. Mae'r Comisiwn felly wedi cynnwys dyraniadau dros dro yn y Gyllideb, a fydd yn rhoi hyblygrwydd i fwrw ymlaen â'r cynigion ar ôl cael gwell syniad o'r goblygiadau o ran adnoddau. O ystyried hyn, a'r cynigion i ddatblygu gwasanaethau TGCh a fydd yn cael eu rhannu â Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae'r Comisiwn yn rhybuddio y bydd angen ystyried cyllideb atodol yn ystod 2008/9 efallai, os gwelir bod y dyraniadau dros dro'n annigonol neu'n ormodol.

### *Rhagolwg*

10. Mae'r blaen gyllidebau dangosol wedi'u gosod allan yn y tabl a ganlyn:

**Tabl 4: Cyllidebau adnoddau ac arian parod dangosol ar gyfer 2009/10 a 2010/11**

| | 2009/10 £000 | 2010/11 £000 |
|---|---|---|
| Cyllideb Adnoddau Ddangosol (ac eithrio Adnoddau Cronnus) | 47,566 | 48,993 |
| Cyllideb Adnoddau Cronnus Ddangosol | 160 | 160 |
| Cyllideb Arian Parod Ddangosol | 41,974 | 43,227 |

11. Mae'r cyllidebau adnoddau ac arian parod dangosol yn dibynnu ar anghenion y gwahanol wasanaethau a chaiff y rhain eu pennu gan Gomisiwn y Cynulliad yn ystod y flwyddyn.

## *Atodiad 1*

**Cyllideb sylfaenol 2007/8 wedi'i haddasu**

| | Refeniw £000 | Cyfalaf £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|
| ***CYLLIDEB SYLFAENOL NET A GYMERADWYWYD 2007/8*** | **33,512** | **70** | **33,582** |
| ***Ymrwymiadau newydd, yn amodol ar gyllideb atodol*** | | | |
| Etholiadau 2007, costau i'r Comisiwn | 880 | | |
| Addasiadau yn y Gyllideb ar gyfer lwfansau Aelodau'r Cynulliad, Dirprwy Weinidogion a'r Cwnsler Cyffredinol. (pro rata) | 500 | | |
| Cynnydd yn Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad, sef 0.5fte (pro rata) | 400 | | |
| Dyraniad dros dro ar gyfer yr adolygiad o gyflogau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad. | 400 | | |
| Gwella cyfleusterau addysgol i blant a grwpiau eraill sy'n ymweld â'r Cynulliad. | - | 400 | |
| Costau ychwanegol yn gysylltiedig â setliad cyflogau staff Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad. | 350 | | |
| Ymgyrch y Bleidlais Ddu a chymorth i'r Comisiwn Etholiadol | 110 | | **3,040** |
| | | | |
| ***Ynghyd â – chostau'n trosglwyddo o Lywodraeth Cynulliad Cymru*** | 5,139 | | **5,139** |
| ***Trosglwyddo cronfeydd refeniw i brosiectau cyfalaf yn ystod 2007/8*** | - 630 | 630 | **-** |
| | | | |
| **CYLLIDEB SYLFAENOL DDIWYGIEDIG 2007/8 yn amodol ar gyllideb atodol** | **40,661** | **1,100** | **41,761** |
| | | | |
| ***Llai - eitemau eithriadol ac unigryw yng nghyllideb 2007/8*** | | | |
| Etholiadau 2007, costau i'r Comisiwn | -880 | | |
| Gwella cyfleusterau addysgol i blant a grwpiau eraill sy'n ymweld â'r Cynulliad. | - | -400 | |
| Ymgyrch y Bleidlais Ddu a chymorth i'r Comisiwn Etholiadol | -110 | | **- 1,390** |
| | | | |
| **CYLLIDEB SYLFAENOL 2007/8 WEDI'I HADDASU** | **39,671** | **700** | **40,371** |

***Atodiad 2***

## Dadansoddi'r Gyllideb yn ôl natur y gwariant a'r incwm

| | **2008-09 Cyllideb £000** | **2007-08 Cyllideb* £000** | **2006-07 Gwir wariant £000** |
|---|---|---|---|
| *Gwariant refeniw* | | | |
| Cyflogau a lwfansau Aelodau a chostau cysylltiedig | 13,676 | 10,112 | 10,451 |
| Cyflogau staff a chostau cysylltiedig | 12,659 | 9,786 | 9,605 |
| Recriwtio/costau eraill Adnoddau Dynol | 159 | 133 | 119 |
| Costau hyfforddi a datblygu | 241 | 294 | 164 |
| Costau teithio a chynhaliaeth staff | 218 | 207 | 168 |
| Costau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu | 3,373 | 4,342 | 3,367 |
| Costau adeiladau a chyfleusterau | 5,798 | 5,625 | 6,323 |
| Costau Gwasanaethau'r Heddlu a gwasanaethau diogelwch eraill | 656 | 625 | 577 |
| Costau gwasanaethau arlwyo | 310 | 288 | 360 |
| Costau marchnata a chyhoeddusrwydd | 551 | 437 | 394 |
| Costau cyfieithwyr allanol | 340 | 422 | 308 |
| Costau gwasanaethau cyhoeddi a gwasanaethau gwybodaeth | 251 | 235 | 103 |
| Costau postio ac offer swyddfa | 247 | 297 | 277 |
| Costau gweinyddol eraill | 670 | 660 | 230 |
| Cronfa wrth gefn | 867 | - | - |
| Dibrisiad a thaliadau llog tybiannol | 4,775 | 200 | 448 |
| **Gwariant Refeniw Gros** | **44,791** | **33,663** | **32,894** |
| *Incwm Refeniw* | | | |
| Gwerthiant – Siop y Cynulliad | -31 | -25 | -32 |
| Rhentu Adeiladau | -104 | -100 | -145 |
| Amrywiol | -25 | -26 | - |
| **Incwm Refeniw Gros** | **-160** | **-151** | **-177** |
| **GWARIANT REFENIW NET** | **44,631** | **33,512** | **32,717** |
| Gwariant cyfalaf – creu asedau sefydlog | 1,550 | 70 | 368 |
| Incwm cyfalaf – gwerthu asedau sefydlog | - | - | - |
| **GWARIANT CYFALAF NET** | **1,550** | **70** | **368** |
| **ADNODDAU NET SYDD EU HANGEN** | **46,181** | **33,582** | **33,085** |

***** *Y gyllideb a gymeradwywyd yn wreiddiol – ac eithrio'r gyllideb atodol arfaethedig.*

## *Atodiad 3*

### Y Gyllideb wedi'i dadansoddi yn ôl swyddogaeth/gwasanaeth

| **2008/9** | **Gwariant refeniw £000** | **Incwm refeniw £000** | **Gwariant cyfalaf £000** | **Incwm cyfalaf £000** |
|---|---|---|---|---|
| Uned Gorfforaethol | 1,473 | - | - | - |
| Gwasanaethau Cyfreithiol | 614 | - | - | - |
| Cyfarwyddiaeth Busnes y Cynulliad | 6,041 | - | - | - |
| Cyfarwyddiaeth Gweithrediadau'r Cynulliad | 17,357 | -160 | 1,550 | - |
| ***Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad*** | **25,485** | **-160** | **1,550** | **-** |
| *Cyflogau a lwfansau'r Aelodau a chostau cysylltiedig* | 13,664 | - | - | - |
| *Dibrisiad a thaliadau llog tybiannol* | *4,775* | - | - | - |
| *Cronfa wrth gefn* | 867 | - | - | - |
| **CYFANSWM** | **44,791** | **-160** | **1,550** | **-** |

| | |
|---|---|
| **Gwariant Refeniw** | 44,791 |
| **Incwm Refeniw** | -160 |
| **Gwariant Cyfalaf** | 1,550 |
| **Incwm Cyfalaf** | - |
| **CYLLIDEB NET** | **46,181** |

# *Atodiad 4*

## Cysoni'r gofniad adnoddau â'r gofyniad arian parod i ddod o Gronfa Gyfunol Cymru

| | **2008-09 £000** | **2009-10 £000** | **2010-11 £000** |
|---|---|---|---|
| Anghenion Adnoddau Net | 44,631 | 47,066 | 48,493 |
| Anghenion Cyfalaf Net | 1,550 | 500 | 500 |
| *Addasiadau:* | | | |
| Taliadau nad ydynt yn arian parod (dibrisiad, llog tybiannol) | -4,775 | -4,923 | -5,076 |
| Diffygion | - | - | - |
| Symudiadau darpariaethau | -564 | -581 | -599 |
| Elw/colled wrth werthu asedau | - | - | - |
| Symudiadau stociau | - | - | - |
| Symudiadau dyledwyr a chredydwyr | -85 | -88 | -91 |
| Defnyddio darpariaethau | - | - | - |
| Arall | - | - | - |
| **Arian parod net sydd ei angen gan Gronfa Gyfunol Cymru** | **40,757** | **41,974** | **43,227** |

***Atodiad 5***

**Alinio cynlluniau gwario newydd Comisiwn y Cynulliad â'i Amcanion Strategol**

| | Hyrwyddo datganoli ac annog mwy o bobl i gymryd rhan yn y broses | Dangos undod, arweiniad ac ymateb yn feiddgar i newidiadau cyfansoddiadol | Dangos parch, cywirdeb a llywodraethu da ym mhob agwedd ar ein gwaith | Gweithio'n gynaliadwy | Gofalu bod gan y Cynulliad y gwasanaeth gorau, a gaiff ei ddarparu yn y ffordd fwyaf effeithiol | Cost £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwella'r gwasanaethau cyfreithiol sydd ar gael i'r Cynulliad. | | ✓ | | | ✓ | 300 |
| Cynyddu'r gallu i gynorthwyo â'r prosesau deddfwriaethol newydd a'r cynnydd yng ngwaith y Pwyllgorau. | ✓ | ✓ | | | ✓ | 685 |
| Buddsoddi i hybu Busnes y Cynulliad a gwaith Comisiwn y Cynulliad. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 975 |
| Addasiadau ar gyfer cyflogau Staff Cymorth y Cynulliad, Dirprwy Weinidogion a'r Cwnsler Cyffredinol. | | ✓ | ✓ | | | 300 |
| Dyraniad dros dro ar gyfer yr adolygiad o Gyflogau a Lwfansau Aelodau'r Cynulliad. | | ✓ | ✓ | | | 1,100 |
| Dyraniadau dros dro i wella adeilad y Pierhead; cyfleusterau crèche; ac annof pobl i gymryd rhan mewn datganoli. | ✓ | | ✓ | | | 1,050 |
| | | | | | CYFANSWM | 4,410 |